# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**22 EBRILL 2026**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, H N Evans, G Parry, C Thomas, S Jones, E L Shui-Nicholson, R G Parry, G Owen (Clerc), Dafydd Gruffydd, Menter Mon | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng H Owens, Cyng D Fowlie (Cynghorydd Sir) | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan gynwys Dafydd Gruffydd, Menter Mon. Mynychodd Dafydd y cyfarfod i esbonio bod Menter Mon yn ystyried datblygu cynllun solar Traffwll fel cynllun cymunedol, gan gadw'r budd yn lleol. Maent mewn trafodaethau gyda Mulcaven ynghylch datblygu'r safle. Ymddengys eu bod yn barod i drosglwyddo i Menter Mon. Y gost fydd £28 miliwn. Gallai fod enillion o ddegau o filoedd o bunnoedd yn y dyfodol. Yn y pen draw, bydd angen i'r prosiect fod yn eiddo i Gymdeithas Budd Cymunedol.<br>Diolchodd y cadeirydd iddo am fynychu. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 10.03.26 fel cofnodion cywir. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Maes Chwarae CCTV** – Derbyniodd yr aelodau ffurflen DP1A - y ffurflen diogelu data ar gyfer y teledu cylch cyfyng er mwyn i'r Clerc ei hanfon at Adran Addysg y Cyngor Sir. Cytunwyd hefyd i ychwanegu'r Cynghorydd H Owens fel dirprwy DPO. |
| **4.2** | **Terfyn cyflymder Engedi** – Nid yw'r Cyngor Sir wedi derbyn canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru eto. |
| **4.3** | **Wal y Fynwent** - Mae'r Clerc yn aros i'r contractwr wneud y gwaith |
| **4.4** | **Torri Coed** - Derbyniwyd dyfynbris o £816 gan David Williams am dorri coed yn y fynwent. Cytunwyd i fwrw ymlaen. |
| **4.5** | **Casglwr Sbwriel** - Mae'r Clerc wedi archebu dau gasglwr sbwriel a bydd yn eu danfon i'r cadeirydd. |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 12.05.26 |

| | |
|---|---|
| **4.6** | **Parcio Lon Ty Hen** - Mae ymateb wedi dod i law gan y Cyngor Sir ynglŷn â llinellau melyn yn Lôn Tŷ Hen. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. |
| **4.7** | **Cynllun Bioamrywieth -** Dywedodd y Clerc fod y potiau planhigion sydd ar gael yn rhy fawr ar gyfer y lleoliadau awgrymedig ym mhob pen o'r pentref. Cytunwyd gosod 2 ger yr hysbysfwrdd gyferbyn â'r eglwys. Cynigiodd y Cynghorydd Sioned Jones dynnu lluniau o'r lleoliad a'u hanfon at y clerc. |
| | |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Brian Jones wedi peintio'r meinciau a'r byrddau picnic yn y maes chwarae. Mae hefyd wedi atgyweirio un o'r siglenni, wedi tacluso o amgylch y gofeb ac wedi casglu sbwriel. Bydd y Clerc yn anfon llythyr diolch ato. Cytunodd yr aelodau mai dim ond meinciau “composite” a ganiateir yn y fynwent o hyn ymlaen wrth ystyried ceisiadau newydd. Mae angen glanhau a phaentio'r llochesi bysiau. Bydd y Clerc yn gofyn i Community Pay Back a fyddan nhw'n gwneud y gwaith. |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN** |
| | **Cynllunio** |
| **6.1** | HHP/2026/63 Cais llawn ar gyfer codi garej a swyddfa at ddefnydd ategol yn Cae Fadog, Ffordd Caergybi/ Holyhead Road, Bryngwran – dim sylwadau |
| | **Priffyrdd** |
| **6.2** | **Lon Newidfa** - Yn dilyn problemau gydag allanfa Lôn Newydd oherwydd cerbydau wedi'u parcio wrth yr allanfa/fynedfa, mae'r Cynghorydd H N Evans wedi gofyn i'r Adran Briffyrdd osod llinellau melyn. |
| | **Adfywio** |
| **6.3** | **Balchder yn eich cymuned -** Cytunodd yr aelodau i dderbyn y cyllid o 8,178.69 sydd ar gael i'r cyngor. Bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch beth fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | **G L Jones** - Mae dyfynbris o £8220 wedi'i dderbyn am 'mulch rwber bonded' yn y cae chwarae. Nid yw'r cyngor yn gallu fforddio hyn ar hyn o bryd. |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 12.05.26 |

| | |
|---|---|
| **7.2** | Community Foundation Wales - Mae grant o £5000 ar gael i un cyngor cymuned/tref yn Ynys Môn i'w ddefnyddio mewn maes chwarae. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cyflwyno cais i'r grant gael ei ddefnyddio ar gyfer matiau yn y maes chwarae. |
| **7.3** | Pris torri coed– gweler 4.4 |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | **Lon at Bryn Glas -** Gellir tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda |
| **8.2** | **Graffiti** - Mae'r rhan fwyaf o'r graffiti wedi'i ddileu ger capel Hebron ond mae rhywfaint yn parhau. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir. |
| **8.3** | **Lon o Bodedern** - Cytunwyd gadael y mater hwn i'r cyfarfod nesaf i'w drafod gyda'r Cynghorydd H Owens. |
| | |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | Unllais Cymru (aelodaeth) £189.00 |
| **9.2** | Humphreys Waste (inv HWR40198) £24.00 |
| **9.3** | Humphreys Waste (inv HWR40199) £48.00 |
| **9.4** | Gerddi Gwych £180.00 |
| **9.5** | G Owen (litter pickers) £16.98 |
| **9.6** | Gwiriad cyllid chwarterol 01.01.26 – 31.03.26 – Cynigodd Cyng S Jones gwneud y gwiriad |
| **9.7** | Flagiau/bunting Eisteddfod yr Urdd – Cytunwyd gwario hyd at £50.00 |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 12.05.26 |